YSGOL GYMREAG YSTALYFERA-BRO DUR
Polisi Ffonau Symudol

Athro Dynodedig Diogelu Plant Ystalyfera :	Mrs Delyth SPurway
Athro Dynodedig Diogelu Plant Bro Dur:	Miss Sioned Jones
Dirprwy ADDP Ystalyfera:	Mrs Rhiannon Hammond/Mrs Angharad Lloyd
Dirprwy ADDP Bro Dur:	Miss Kath Jones
Llywodraethwr Dynodedig Diogelu Plant:	Mrs Carys Jones

Cymeradwywyd gan y Llywodraethwyr 2018

LLofnod (Cadeirydd y Llywodraethwyr):	Ionawr 2018
Adolygwyd gan y Llywodraethwyr:	
LLofnod (Cadeirydd y Llywodraethwyr):	Ionawr 2019
LLofnod (Cadeirydd y Llywodraethwyr):	Ionawr 2020
LLofnod (Cadeirydd y Llywodraethwyr):	Ionawr 2021
fnod (Cadeirydd y Llywodraethwyr):	Ionawr 2022

YGYBD-P-009C

POLISI FFONAU SYMUDOL

Cefndir

Safbwynt cyffredinol yr ysgol yw na ddylai disgyblion ddod ag offer gwerthfawr, gan gynnwys ffonau symudol i safle'r ysgol a hynny am nad oes modd diogelu'r offer hwnnw oddi fewn i'r ysgol.

Ymhellach nid oes rheswm addysgol dros gario offer o'r fath i'r ysgol ar hyn o bryd ac yn gyffredinol mae'r offer hwn yn tarfu ar ffocws dysgu ac addysgu'r ysgol. Gyda'r cynnydd mewn cyfathrebu ar lein ac electroneg mae'r ysgol yn ymwybodol a gofalgar iawn am ddiogelwch disgyblion wrth gyfathrebu, ac o beryglon a chamddefnydd eang o'r dechnoleg newydd hon (Gweler Polisi e-Ddiogelwch yr ysgol). Os bydd angen i rhiant gysylltu a disgybl, neu ddisgybl gyda'i rhieni yn ystod oriau'r dydd ysgol, rhaid gwneud hynny drwy Brif Swyddfa'r ysgol, (hyd yn oed mewn argyfwng).

Serch hynny mae'r ysgol yn cydnabod fod dadl gref o ran diogelwch personol disgyblion tu hwnt i oriau arferol ysgol i unigolion gario ffôn symudol i'r ysgol. Fel cymuned ofalgar ni allwn anwybyddu fod nifer o amgylchiadau yn gallu codi lle mae ffôn symudol yn hynod ddefnyddiol, ac angenrheidiol i ddisgyblion.

Polisi:

Bwriad y polisi hwn yw gosod canllawiau clir ac ymarferol ar gyfer offer o'r fath yn seiliedig ar "synnwyr cyffredin".

1. Os yw'n angenrheidiol i ddisgybl ddod a ffôn symudol i'r ysgol ar gyfer cyfathrebu a'i rieni **tu hwnt i oriau arferol yr ysgol (8.30am - 3.20pm). Dylai'r disgybl ddiffodd ei ffôn ar ddechrau'r dydd a'i ailgynnau dim ond ar ddiwedd y dydd ysgol. Ni ddylai disgybl ddefnyddio ei ffôn mewn unrhyw amgylchiadau yn ystod y dydd ysgol.**
2. Cyfrifoldeb disgybl unigol yw diogelwch a gofal eiddo electronig, ac ni fyddwn yn ymchwilio i golli offer fel hyn.
3. Os bydd disgybl yn defnyddio ei ffôn yn ystod y dydd ysgol bydd rhaid iddo drosglwyddo'r ffôn i athro ac ni fydd yn derbyn y ffôn hyd nes derbyn llythyr caniatâd gan riant i ddychwelyd y ffôn y diwrnod canlynol.
4. Os bydd disgybl yn defnyddio ei ffôn mewn gwers neu mewn modd bwriadol maleisus tuag at aelod o gymuned yr ysgol bydd camau mwy difrifol yn cael eu cymryd oddi fewn i'r ysgol, a hynny mewn cydweithrediad llawn gyda rhieni.

Os oes gennych unrhyw ymholiad ynglŷn â'r polisi hwn gallwch gysylltu â'r ysgol i drafod eich pryderon.

	Enw	Llofnod	Dyddiad
Cadeirydd y Llywodraethwyr	Mr Alun Llewelyn		Ionawr 2021
Pennaeth	Mrs Laurel Davies		Ionawr 2021

Dyddiad Adolygu	Ionawr 2022